Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? [Darllenwch ef yn eich porwr.]

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 289 (Cymru) - 21 Rhagfyr 2020**

## Etholiadau mis Mai 2021: cyhoeddi canllawiau atodol

Yn ychwanegol at ein diweddariad ym Mwletin 288, rydym bellach wedi cyhoeddi'r ddogfen olaf yn ein cyfres o ganllawiau atodol i gefnogi gweinyddwyr etholiadol wrth iddynt baratoi at etholiadau mis Mai 2021 a'u cyflawni yng nghyd-destun y pandemig coronafeirws. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar reoli'r dilysu a'r cyfrif.

Mae'r canllawiau hyn, sydd wedi eu datblygu gyda chyngor arbenigol ein cyrff iechyd cyhoeddus, ac mewn ymgynghoriad â Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (WECB), Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru (WEPWG), y Gweithgor Etholiadau, Refferenda, a Chofrestru (ERRWG), AEA, Solace, Swyddfa'r Cabinet, a Llywodraeth Cymru yn ategu'r canllawiau craidd ar gyfer EROs ac ROs, gan amlygu'r heriau ychwanegol y gallech eu hwynebu yn ystod y sefyllfa iechyd cyhoeddus barhaus, er mwyn cyflawni pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio yn ddiogel ac yn effeithiol.

Fel y nodwyd gennym yn flaenorol, bydd y dogfennau canllawiau atodol yn ddogfennau byw, er cydnabod y tirlun cyfnewidiol a'r datblygiadau parhaus o ran cyngor iechyd cyhoeddus a deddfwriaeth sy'n effeithio ar yr etholiadau. Byddwn yn eu diweddaru pan ddaw gwybodaeth ychwanegol i'r amlwg, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau trwy'r Bwletin Gweinyddu Etholiadol.

Yn ogystal at ein canllawiau craidd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi canllawiau atodol ar gyfer ymgeiswyr, asiantiaid, a phleidiau gwleidyddol. Bydd y canllawiau hyn yn eu helpu i ddeall yr hyn y bydd angen iddynt ei wneud i lywio'r broses etholiadol yng nghyd-destun y pandemig, gan nodi beth dylent ei ddisgwyl yn ystod pob cam o'r broses etholiadol. Rydym hefyd wrthi'n diweddaru ein cyfres o adnoddau atodol ar gyfer etholiadau mis Mai 2021. Byddwn yn cadarnhau pryd bydd y rhain ar gael mewn Bwletinau yn y dyfodol.

Fel pob amser, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, cysylltwch â infowales@electoralcommission.org.uk a byddwn yn hapus i helpu.

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiadau mis Mai 2021: cyhoeddi canllawiau atodol**

Gwybodaeth ynghylch canllawiau atodol ar reoli'r dilysu a'r cyfrif, a dolen atynt.

**Etholiadau mis Mai 2021: Ffurflen archebu llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym**

Dolen at ffurflen archebu ar gyfer copïau caled o'r llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym

**Etholiadau Mai 2021: arolwg gwybodaeth rheoli**

Gwybodaeth am ein harolwg gwybodaeth rheoli, a dolen ato.

Rydym yn cyhoeddi bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. **Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'n *Bwletinau Gweinyddu Etholiadol*.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

## Etholiadau mis Mai 2021: ffurflen archebu llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym

Rydym bellach yn derbyn archebion ar gyfer copïau caled o'r llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym i'w defnyddio yn ystod etholiadau mis Mai 2021.

Byddwn yn cyhoeddi llawlyfr a chanllaw cyflym ar gyfer etholiadau cyfun Senedd Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r ffurflen archebu ar-lein yw **dydd Gwener 22 Ionawr 2021**. Byddwn yn argraffu yn ôl yr archebion a dderbyniwn, felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi eich manylion i ni erbyn y dyddiad cau.

Unwaith i chi gyflwyno eich ffurflen archebu, ni fydd modd i chi ddiwygio'r archeb eich hunan. Os bydd angen i chi newid eich archeb, cysylltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Byddwn yn cadarnhau amseriad dosbarthu'r copïau caled mewn Bwletin yn y dyfodol.

## Etholiadau Mai 2021: arolwg gwybodaeth rheoli

Fel rhan o'n dull monitro etholiadau mis Mai 2021, rydym yn casglu gwybodaeth rheoli gan bob Swyddog Canlyniadau sydd ag etholiadau wedi eu trefnu. Bydd yn ymwneud â'r modd y caiff yr etholiadau eu cynnal yn eu hardal. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, bydd y wybodaeth hon yn helpu i roi darlun clir o'r trefniadau sydd wedi eu rhoi ar waith ar draws Cymru ar gyfer cyflawni'r etholiadau; bydd hefyd yn darparu ystadegau allweddol y gellir eu defnyddio gyda'r cyfryngau ac ymholwyr eraill, yn rhagweithiol ac yn adweithredol fel ei gilydd.

Rydym wedi datblygu arolwg i gasglu'r wybodaeth hon, sy'n cwmpasu meysydd megis dyddiadau trefnedig dosbarthu cardiau pleidleisio a phleidleisiau post, niferoedd gorsafoedd pleidleisio a'u staff, ac amseriadau a lleoliadau dilysu a chyfrif. Mae arolwg eleni yn hwy na'r blynyddoedd diwethaf oherwydd cynnwys cwestiynau parthed effaith COVID-19 ar baratoadau at etholiadau mis Mai 2021. Deallwn eich bod yn brysur, a gwerthfawrogwn eich amser yn fawr iawn wrth roi'r wybodaeth bwysig hon i ni.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cwblhau'r arolwg erbyn **dydd Gwener 15 Ionawr 2021**. Rydym wedi cyhoeddi rhestr o'r cwestiynau y gallwch gyfeirio atynt cyn i chi gwblhau'r arolwg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar y broses hon, cysylltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2020

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio** unrhyw bryd.